Theatr Clwyd

NEUADD WILLIAM ASTON HALL





# Cyfleoedd Busnes

Dewch yn aelod a chefnogi diwylliant yng Ngogledd Cymru

theatrclwyd.com/corporate
williamastonwrexham.com/corporate

# Eich effaith

**Fel elusen mae ein gwaith ni gyda chymunedau wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a bydd eich cefnogaeth chi'n ein helpu ni i barhau â'r gwaith pwysig yma;** defnyddio'r celfyddydau i ddatblygu a gweithredu rhaglen bwrpasol o brosiectau creadigol, cymdeithasol, corfforol, iechyd a lles.



## Gweithdai i bawb

**Mae mwy na 3000 o bobl ifanc yn mynychu amrywiaeth o weithdai drama a chreadigol bob wythnos gan ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu a magu hyder.** Gyda'ch help chi gallwn gynnig llefydd bwrsari fel bod unrhyw blentyn yn gallu ymuno.



## Celfyddydau ar gyfer iechyd a lles

**Mae rhaglenni fel Celfyddydau o'r Gadair Freichiau yn dod â phobl sy'n byw gyda dementia neu golled cof cynnar a'u gofalwyr at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithdai wythnosol.** Wedi'u cyfeirio gan y bwrdd iechyd, a heb fod mewn lleoliad clinigol, defnyddir creadigrwydd i ysgogi prosesau gwybyddol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd.


Llun gan Marc Brenner

## Adloniant o safon byd

**Mae cefnogi theatr o safon byd ac adloniant byw ar garreg eich drws yn golygu eich bod yn buddsoddi yn nhirlun diwylliannol y rhanbarth;** gan helpu i sicrhau ein bod yn gallu parhau i greu a rhannu theatr, cerddoriaeth, comedi a dawns rhagorol ar ein llwyfannau ni.



## Datblygu Talent

**Fel prif theatr gynhyrchu Cymru, mae yn ein DNA ni i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr theatr ac artistiaid.** Gyda'n gilydd, yn ein stiwdio ddatblygu genedlaethol newydd ar gyfer Cymru, Stiwdio Clwyd, gallwn greu cartref ar gyfer datblygiad proffesiynol a meithrin artistiaid newydd o fewn y sector theatr.

# Ein Lleoliadau

Theatr Clwyd

**Mae Theatr Clwyd yn lleoliad heb ei ail ac yn adeilad diwylliannol ym mryniau prydferth Gogledd Cymru ac mae mwy na 350,000 o bobl yn ymweld ag ef bob blwyddyn.** Gyda 3 awditoria, sinema, oriel, gofod ar gyfer digwyddiadau a bar a bwyty rhagorol, mewn partneriaeth â'r cogydd seren Michelin o Gymru, Bryn Williams, mae Theatr Clwyd yn cynnig rhywbeth i bawb.

Mae mwy na 25 o premiere byd ers 2019, gan gynnwys ***Home, I'm Darling***, sydd wedi ennill Gwobr Olivier, wedi'i llunio gan ein gwneuthurwyr theatr mewnol medrus, yn golygu bod Theatr Clwyd mewn safle cadarn fel y theatr gynhyrchu fwyaf yng Nghymru.

O dan arweiniad y cyfarwyddwr gweithredol Liam Evans-Ford a'r cyfarwyddwr artistig Kate Wasserberg, mae'r gwaith o safon byd ar ein llwyfannau ni yr un mor bwysig â'n gwaith ni yn ein cymunedau. Mae partneriaethau strategol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'n bwrdd GIG lleol yn sicrhau ein bod yn gallu gweithio yn yr hirdymor ar draws ystod eang o gymunedau, gan ddefnyddio'r celfyddydau i wella iechyd a lles.

*Rydyn ni wedi ei wneud yn genhadaeth i ni -* ***gwneud y byd yn hapusach un ennyd ar y tro***







FfotoNant


FfotoNant


Samuel Taylor

theatrclwyd.com/corporate

# Ein Lleoliadau

NEUADD WILLIAM ASTON HALL

**Gyda'i lleoliad unigryw yng nghanol Wrecsam a'r Brifysgol, Neuadd William Aston yw lleoliad theatr a chyngherddau mwyaf y ddinas,** gan groesawu amrywiaeth eang o berfformwyr o fyd comedi, bandiau teyrnged, cerddoriaeth gyfoes a chlasurol, ballet, dawns a phreswylwyr – Cerddorfa Symffoni Wrecsam.

Yn cael ei weithredu a'i raglennu gan Theatr Clwyd, mae gan y lleoliad enw da am gomedi; gan ddenu enwau mawr fel Sarah Millican a Jimmy Carr a churadu Gŵyl Gomedi flynyddol Wrecsam sy'n cynnwys mwy na 33 o berfformwyr ynghyd â 2 berfformiad gala dros 3 diwrnod.

Mae cyfuno arbenigedd theatrig Theatr Clwyd ac arloesedd a bywiogrwydd y brifysgol yn golygu y bydd y lleoliad hwn yn parhau i ddod â'r adloniant gorau yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol i bobl Wrecsam a Gogledd Cymru.


Stephen Cain











williamastonwrexham.com/corporate

Theatr Clwyd

NEUADD WILLIAM ASTON HALL

# Pecynnau Aelodaeth Busnes

**Mae cael eich cwmni i weithio gyda ni yn llesol i fusnes. Mae gennym ni becynnau aelodaeth ar amrywiaeth o lefelau gyda manteision gwych i'ch helpu chi i gyflawni eich nodau busnes.**

Rydyn ni hefyd yn creu partneriaethau a nawdd pwrpasol wedi'u cynllunio gyda'ch amcanion penodol chi mewn golwg. Gall opsiynau fel nawdd i sioe, digwyddiad neu arddangosfa weithio i chi.









theatrclwyd.com/corporate

williamastonwrexham.com/corporate

Theatr Clwyd

NEUADD WILLIAM ASTON HALL

# Eich manteision


HID 2019

## Lletygarwch ac adloniant heb ei ail

**Gyda dau leoliad gwych, y ddau â'u personoliaeth, cynulleidfa a rhaglen unigryw, mae llawer o opsiynau ar gael i chi.** Cynnal digwyddiadau arbennig i'ch cleientiaid a'ch gwesteion mewn gofod unigryw gennym ni. Mae mynediad at fuddion unigryw fel teithiau cefn llwyfan, sesiynau holi ac ateb gyda phobl greadigol a chast, neu raglenni wedi'u llofnodi yn golygu y gallwch chi greu digwyddiadau cofiadwy.



## Bryn Williams at Theatr Clwyd

**Mae'r Cogydd o fri o Gymru, Bryn Williams, yn dod â'i angerdd am gynnyrch lleol tymhorol, cynaliadwy i'w fwyty newydd yng nghalon Theatr Clwyd.** O frecwastau hamddenol, ciniawau a the prynhawn i swperau o safon gyda'r nos - gwnewch eich ymweliad yn brofiad i'w gofio.


Sam Taylor

## Gwobrwyo a chydnabod cyflogeion


**Gallai tocynnau am ddim a chynigion unigryw fod yn ychwanegiad perffaith at eich rhaglen wobrwyo a chydnabod staff. Neu defnyddiwch nhw ar gyfer meithrin tîm neu nosweithiau allan y cwmni.**

Gan ddefnyddio arbenigedd ein hartistiaid mewnol a'n gweithwyr cyswllt, gallwn ddod â hyfforddiant sgiliau bywyd i'ch timau - siarad cyhoeddus, cyflwyniadau, sgiliau rhwydweithio, meithrin hyder.


FfotoNant

## Tocynnau am ddim

**O banto i glasuron, comedi i gerddoriaeth glasurol, mae rhywbeth at ddant pawb a gallai tocynnau am ddim agor byd o opsiynau i chi.** Defnyddiwch y tocynnau ar gyfer un o'ch digwyddiadau hyrwyddo, neu hyd yn oed roi eich tocynnau yn rhodd i ysgol neu grŵp cymunedol.



## Cyfleoedd brandio

**Cyfle i godi proffil eich brand o flaen mwy na 400,000 o ymwelwyr y flwyddyn neu dargedu cynulleidfaoedd penodol. Mae opsiynau i logo eich cwmni ymddangos ar ein gwefan ni, ar raglenni, pamffledi ac ar sgrin.**

## Partneriaethau a nawdd

Beth am i ni greu pecynnau pwrpasol a fydd yn eich helpu chi i gyflawni eich amcanion a gwneud y gorau o'r buddion y gallwn ni eu cynnig.

## Pecynnau aelodaeth – **Theatr Clwyd**

| | Aur **£5,000** (+TAW) | Arian **£2,000** (+TAW) | Efydd **£500** (+TAW) |
|---|---|---|---|
| *Cynyrchiadau Theatr Clwyd:* | 70 | 40 | 10 |
| *Gwahoddiad noson i westeion:* | Hyd at 6 | Hyd at 4 | 2 |
| *Ardal VIP ar gyfer digwyddiadau:* | Oes | Oes | Oes |
| *Bwyd a diod:* | Cyfraddau ffafriol ynghyd â derbyniad Prosecco | Cyfraddau ffafriol | Cyfraddau ffafriol |
| *Pwrpasol:* | Ymweliadau gan y cast i'ch derbyniadau ar ôl y sioe (uchafswm o 2 ddigwyddiad y flwyddyn) | — | — |
| *Hysbysebu mewn rhaglenni:* | Hanner tudalen mewn 1 rhaglen | Chwarter tudalen mewn 1 rhaglen | — |
| *Brand mewn rhaglenni:* | 1 rhaglen | 1 rhaglen | 1 rhaglen |
| *Cydnabyddiaeth yn y llyfryn:* | Hyd at 3 gwaith y flwyddyn | Hyd at 3 gwaith y flwyddyn | — |
| *Brand ar y wefan:* | Oes | Oes | Oes |

## **Theatr Clwyd** Hefyd Neuadd **William Aston**

| | Aur **£5,750** (+TAW) | Arian **£2,500** (+TAW) | Efydd **£750** (+TAW) |
|---|---|---|---|
| *Tocynnau Neuadd William Aston:* | 25 | 12 | 6 |
| *Tocynnau Gŵyl Gomedi:* | 20 | 10 | 4 |
| *Defnydd o ardal VIP:* | hyd at 3 gwaith gan gynnwys byrbrydau bar | Ar gyfer 1 digwyddiad | — |
| *Llogi lleoliad:* | 1 diwrnod y flwyddyn | — | — |
| *Brand ar y wefan:* | Oes | Oes | Oes |
| *Brand yn y lleoliad:* | Tudalen bwrpasol ar sgrin. Cydnabyddiaeth ar y bwrdd rhestru | Tudalen a rennir ar sgrin | — |

## Pecyn aelodaeth – Neuadd **William Aston (solus) £7,500** (+TAW)

| | |
|---|---|
| *Tocynnau:* | 300 (Ar draws sioeau niferus) |
| *Gwahoddiad noson i westeion:* | 2 |
| *Tocynnau Gŵyl Gomedi:* | 20 |
| *Cynigion tocynnau:* | Oes |
| *Defnydd o ardal VIP:* | hyd at 3 gwaith (gan gynnwys byrbrydau bar) |
| *Llogi lleoliad:* | 1 diwrnod y flwyddyn |
| *Brand ar y wefan:* | Oes (safle premiwm) |
| *Brand yn y lleoliad:* | Tudalen bwrpasol ar sgrin. Cydnabyddiaeth ar y bwrdd rhestru |

Os ydych wedi'ch lleoli yn Wrecsam neu'r cyffiniau ac yn chwilio am wobrau a chymhellion cofiadwy i'ch staff, digwyddiad meithrin tîm neu noson allan dros y Nadolig, dyma'r pecyn i chi.


Kev Curtis

Mae Telerau ac Amodau yn berthnasol - gofynnwch am fanylion.
Mae aelodaeth fusnes yn para am 12 mis. Mae tocynnau am ddim, llogi lleoliad a defnyddio ardal VIP yn dibynnu ar argaeledd.

Theatr Clwyd

NEUADD WILLIAM ASTON HALL

*“Rydyn ni’n eich croesawu chi fel arweinwyr busnes yn y cyfnod hollbwysig yma yn hanes Theatr Clwyd. Yn 2025 rydyn ni’n falch o fod yn darparu cyfleuster celfyddydol o safon byd yn Sir y Fflint ar gyfer pob cymuned ac ymwelydd, ochr yn ochr â datblygu enw da yn Wrecsam fel lleoliad comedi a pherfformiadau byw blaenllaw i Gymru. Gan weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr busnes lleol a chenedlaethol gallwn sicrhau effaith sylweddol ar gyfer eich buddsoddiad, a gyda’n gilydd gallwn wneud Gogledd Cymru yn lle grymusol i fyw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol.”*



**Liam Evans-Ford**
Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gweithredol



Os ydych chi eisiau cael gwybod mwy am ein pecynnau aelodaeth busnes, cysylltwch â Janine.

**Janine Dwan,** Pennaeth Datblygu / janine.dwan@theatrclwyd.com / 01352 406916

Theatr Clwyd Trust Ltd, rhif elusen gofrestredig 1189857

Os hoffech chi ddysgu mwy am fanteision ffurfio partneriaeth gyda **Theatr Clwyd** a **Neuadd William Aston** neu os hoffech chi gefnogi ein gwaith ni mewn ffyrdd eraill, cysylltwch â ni.



**Janine Dwan**
**Pennaeth Datblygu**
janine.dwan@theatrclwyd.com
01352 406916



**Zoe Crick-Tucker**
**Cyfarwyddwr Ymgyrch Cyfalaf**
zoe.crick-tucker@theatrclwyd.com
01352 609144

**theatrclwyd.com/corporate**
**williamastonwrexham.com/corporate**

Registered with FUNDRAISING REGULATOR · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Cymru Wales · Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Theatr Clwyd Trust Ltd, rhif elusen gofrestredig 1189857